

NODIADAU ARIANNOL

Cyfraniadau a chau'r llyfrau cyfrifon yn brydlon

Diolchir i nifer dda o'r aelodau am gyfrannu yn gynnar yn ystod eleni, ond fe apelir eto ar i'r gweddill ohonoch dalu eich cyfraniadau mewn da bryd, erbyn 30 Tachwedd, os gwelwch yn dda. Bydd hyn yn hwyluso'r Trysorydd yn fawr i gau'r llyfrau yn gynnar yn Ionawr 2003.

Cymorth Rhoddion a Chyfamodau

Fe fydd prydlondeb cau'r llyfrau yn gyfle hefyd i'r Ysgrifennydd Ariannol yn ei waith o wneud cais am ad-daliad treth incwm ar gymorth rhoddion a chyfamodau, sy'n ychwanegiad ariannol gwerthfawr iawn i'n coffrau ni. Mae nifer dda o'n haelodau yn awr yn manteisio ar yr arfer o gyfrannu drwy Gymorth Rhoddion ac anogir y gweddill ohonoch sy'n talu treth incwm ar y raddfa sylfaenol i ddilyn yr un patrwm.

Gallwch gael ffurflenni Cymorth Rhoddion oddi wrth yr Ysgrifennydd Ariannol, Mr D Bryn Lloyd.

Llawer o ddiolch i bawb am eu cefnogaeth barhaol i'n hymdrechion ni yn y Garn.

Mynwent y Garn

Dymunwn ddiolch i Mrs S Taylor a'r teulu, Glyn Ceiro, Dole am y rhodd o sedd hardd i'r fynwent.

Rydym wrthi eleni yn gwella golwg y fynwent drwy osod cyrbau bob ochr i'r llwybrau. Mae Rhan 1 y gwaith wedi ei ddechrau am gost o £1,350.

Yn 2003, gobeithiwn wneud Rhan 2, sef y prif lwybr sy'n arwain o'r lliadiart ac o amgylch rhan ganol y fynwent. Bydd hyn yn costio £2,600. Bydd rhaid chwilio am grantiau a nawdd digonol cyn y gallwn ddechrau ar y gwaith.

Os oes modd i chi, neu eraill y gwyddoch amdanynt, gyfrannu ychydig at y gwaith, yna byddwn yn dra diolchgar, fel y gallwn ddechrau a gorffen y gwaith yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Eddie Jones (Goruchwyliwr y Fynwent)


Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 1 Rhagfyr i:

Mr Dewi G Hughes

Bod Hywel

Mrs Marian B Hughes

14 Maes y Garn



(828026)

dewighughes@lineone.net


(828662)

Marian_Hughes@btinternet.com



GAIR O'R GARN

CYLCHLYTHYR
EGLWYS Y
GARN,
BOW STREET



Rhif 7
Hydref 2002

Duw cariad yw

Gweinidog

Parch R W Jones

Haddef

6 Maes Afallen

Bow Street



(01970 828006)

Ysgrifennydd

Mr Eddie Jenkins

Eryl

Llandre

Bow Street

(01970 828147)



Grŵp Help Llaw

Bydd y grŵp yn cyfarfod yn y Ffestri ar bawn Mercher am 2.30 o'r gloch (ac eithrio dydd Mercher cyntaf y mis).

Eisoes eleni mae'r grŵp wedi casglu llond sach o deganau i'w hanfon i

Bosnia drwy law Eric Harris ac wedi didoli 31,000 o stampiau ar gyfer Oxfam.

Y tymor hwn bydd y grŵp yn paratoi bocsys anrhegion ar gyfer elusen Christmas Child.

Croeso i unrhyw un droi i mewn atom.

Shan Hayward (Ysg)



Estyn help llaw

Mae Llŷr James, Taigwynion, yn mynd allan i weithio ar fferm y tu allan i Nairobi, Cenia, lle mae plant sy'n amddifad oherwydd AIDS yn byw. Bydd ef a Carol yn treulio mis yno – Carol yn helpu gyda'r coginio a'r gwaith fferm a Llŷr yn dysgu gwaith saer i'r gweithwyr. Dymuna'r Eglwys bob llwyddiant a bendith i'r ddau wrth iddynt roi help llaw mewn ffordd ymarferol iawn i rai llai ffodus na hwy.

Diolch o galon i Sara Huws am ei gwaith gwirfoddol dros fudiad OXFAM drwy roi help llaw yn siop OXFAM ar Sadyrnau. Mae Sara yn gadael am Gaer-grawnt. A oes rhywun yn barod i lenwi ei lle?

Cynhelir yr oedfaon am 10 a 5 o'r gloch. Ysgol Sul y plant a'r ieuencid am 10 o'r gloch. Ysgol Sul i oedolion ym Methlehem, Llandre am 2 o'r gloch. Yn dilyn oedfa'r bore, mae gwahoddiad cynnes i bawb gymdeithasu dros gwpanaid o de neu goffi – yr elw at gronfa'r adeiladau.

Hydref

- 2 Gwasanaeth Diolchgarwch y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch yng ngofal Mrs Dora Richards a Mrs Nansi Hayes, Y Gerlan a'r Parchedig R W Jones
- 6 Parch O T Evans
- 9 Grŵp Help Llaw am 2.30 o'r gloch
- 11 Cyfarfod Diolchgarwch Bethlehem am 7 o'r gloch Gwasanaethir gan Mr W D Llewelyn
- 13 Parch Stanley Lewis
- 16 Grŵp Help Llaw am 2.30 o'r gloch
- 18 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch Darlith agoriadol gan Mr Gwyn Jones, Pen-y-garn
- 20 Sul Diolchgarwch dan ofal y Bugail Casgliad at apêl Bangladesh
- 23 Grŵp Help Llaw am 2.30 o'r gloch
- 27 Mrs Beti Wyn Holmes Bugail (Oedfa gymun ym Methlehem, Llandre am 5 o'r gloch)
- 31 Cylch Trafod yn dechrau am 7 o'r gloch dan ofal y Bugail

Tachwedd

- 3** Parch A O Roberts
- 6 Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch
Rees Thomas – Y dderwen a dodrefn derw
- 7 Cylch Trafod am 7 o'r gloch
- 8 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Mr Brian Davies, Taliesin – 'Gwyliau'
- 10** Parch Tudor Davies
- 13 Grŵp Help Llaw am 2.30 o'r gloch
- 14 Cylch Trafod am 7 o'r gloch
- 17** Bugail (Y Garn yn uno yn Noddfa yn y bore; cymun yn oedfa'r hwyr)
Y dynion yn cynnal gwasanaeth yn Nhregerddan am 3.30 o'r gloch
- 20 Grŵp Help Llaw am 2.30 o'r gloch
- 21 Cylch Trafod am 7 o'r gloch
- 24** Parch Ieuan S Jones
Bugail – Gwasanaeth i'r Ofalaeth yn y Gerlan
am 2.00 o'r gloch
- 27 Grŵp Help Llaw am 2.30 o'r gloch
- 28 Cylch Trafod am 7 o'r gloch
- 29 Pwyllgor Blaenoriaid
- 30 Bore Coffi a Stondin Gacennau er budd yr Eglwys
yn Neuadd Rhydypennau, 10–12 o'r gloch

Rhagfyr

- 1** Parch Gareth Watts
- 4 Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch
Mrs Nia Lewis yn cyflwyno rhai o'i hoff emynau
- 5 Cylch Trafod am 7 o'r gloch
- 8** Parch A Wynne Edwards
- 11 Grŵp Help Llaw am 2.30 o'r gloch
- 12 Cylch Trafod am 7 o'r gloch
- 15** Bugail – Gwasanaeth Nadolig yr Eglwys yn y bore
Gwasanaeth i'r Ofalaeth ym Mabell, Dôl-y-bont am 5 o'r gloch
- 18 Grŵp Help Llaw am 2.30 o'r gloch
- 19 Cylch Trafod am 7 o'r gloch
- 20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Dathlu'r Nadolig'
- 22** Parch O T Evans
Gwasanaeth Nadolig dan ofal y Bugail
- 25 Bore'r Nadolig – Oedfa gymun dan ofal y Bugail am 9 o'r gloch
- 29** Parch A O Roberts
- 31 Gwasanaeth Gwynnos dan ofal y Bugail
am 11.30 o'r gloch yr hwyr